

Y Gyfres Gynllunio:

5 - Galw ceisiadau cynllunio i mewn

Hydref 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Ymchwil y Senedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6328**

E-bost: Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: SeneddYmchwil.blog

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Gyfres Gynllunio:

5 - Galw ceisiadau cynllunio i mewn

October 2019

Awdur:

Elfyn Henderson

Trosolwg o'r papur:

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r broses ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn. Mae'n disgrifio o dan ba amgylchiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried galw cais i mewn a beth sy'n digwydd pan elwir hwy i mewn.



www.assembly.wales/research

Cynnwys

1. Beth yw ystyr galw cais cynllunio i mewn?	1
2. Pam y caiff ceisiadau eu galw i mewn?.....	1
3. Beth sy'n digwydd pan gaiff ceisiadau eu galw i mewn?.....	3
4. Ffynonellau allweddol.....	4
Llywodraeth Cymru	4
Cymorth Cynllunio Cymru	4
Y Porth Cynllunio	4
Ymchwil y Senedd	4

1. Beth yw ystyr galw cais cynllunio i mewn?

Yn gyffredinol, caiff ceisiadau am ganiatâd cynllunio eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol. Yng Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru y grym i gymryd cyfrifoldeb oddi ar awdurdod cynllunio lleol ar unrhyw gais cynllunio drwy ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 77 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Wedyn, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Dyma'r broses 'galw i mewn', sy'n effeithio ar nifer fach o geisiadau yn unig bob blwyddyn.

Gellir galw unrhyw gais i mewn, ar yr amod nad yw'r awdurdod cynllunio lleol eisoes wedi penderfynu arno.

2. Pam y caiff ceisiadau eu galw i mewn?

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, **Polisi Cynllunio Cymru**, yn nodi:

1.32 Ar y cyfan, mae'n well i gynigion datblygu gael eu penderfynu'n lleol gan ACLI sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion a'r sensitifrwydd cynllunio. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd ag awdurdodaeth ACLI oni bai bod angen gwneud hynny.

Fel rheol, bydd ceisiadau cynllunio yn destun proses 'galw i mewn' pan gaiff materion cynllunio eu codi sydd y tu hwnt i bwysigrwydd lleol. Gall y materion hyn godi pan fo'r datblygiad arfaethedig:

- yn gwrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol;
- o bosibl yn effeithio'n helaeth y tu hwnt i'r ardal leol;
- o bosibl yn bwnc llosg sylweddol y tu hwnt i'r ardal leol;
- yn debygol o effeithio'n sylweddol ar safleoedd sydd o ddiddordeb o ran gwyddoniaeth, cadwraeth natur neu hanes, neu ardaloedd sy'n bwysig o ran tirwedd;
- yn codi materion o ran diogelwch cenedlaethol; neu'n
- codi materion cynllunio newydd.

Gall yr ymgeisydd neu unrhyw barti arall sydd â buddiant (a elwir yn drydydd parti) ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn i gais gael ei alw i mewn. Rhaid gwneud hyn cyn i'r awdurdod cynllunio lleol wneud ei benderfyniad terfynol. Fodd bynnag, caiff penderfyniad y Gweinidog ynghylch a ddylid galw cais i mewn ei wneud yn ôl disgrisiwn.

Hefyd, mae 'Cyfarwyddiadau Hysbysu' amrywiol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio at Lywodraeth Cymru yr holl geisiadau y maent yn bwriadu eu cymeradwyo a lle y mae'r datblygiadau dan sylw yn:

- ddatblygiad mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd;
- datblygiad preswyl sylweddol (hynny yw, mwy na 150 o unedau, neu ar fwy na chwe hectar o dir, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);
- datblygiad sy'n gysylltiedig â mwynau (ar gyfer casglu a thrin mwynau ar safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);
- datblygiad sy'n gysylltiedig â thrin gwastraff (wedi'i fwriadu ar gyfer dyddodi gwastraff yn y tir neu arno, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);
- cloddio am agregau o safle newydd neu safle presennol mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- datblygiad olew a nwy anghonfensiynol, gan gynnwys arfarnu neu gynhyrchu methan gwely glo, olew siâl neu nwy siâl drwy ddull anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrologig (ffracio); neu
- nwyeddio glo tanddaearol.

Yn seiliedig ar gyfartaleddau blynyddol o 2012 i 2018, cafodd Llywodraeth Cymru 41 cais 'galw i mewn' y flwyddyn, gyda phum cais arall y flwyddyn wedi'u nodi o dan yr amrywiol Gyfarwyddiadau Hysbysu uchod. O'r cyfanswm blynyddol hwn o 47, dim ond tri chais ar gyfartaledd a alwyd i mewn bob blwyddyn.

3. Beth sy'n digwydd pan gaiff ceisiadau eu galw i mewn?

Mae'r **Arolygiaeth Gynllunio**, sef asiantaeth weithredol sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn penodi Arolygydd Cynllunio i ymdrin â'r cais a alwyd i mewn.

Yn flaenorol, roedd ceisiadau a alwyd i mewn yn dilyn y weithdrefn ymchwiliad cyhoeddus lleol. Y rheswm am hyn yw eu bod, yn gyffredinol, yn ymwneud â chynigion sydd o bwysigrwydd sydd y tu hwnt i bwysigrwydd lleol, sy'n tueddu i arwain at lefelau uchel o ddiddordeb cyhoeddus ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i dystiolaeth dechnegol gael ei phrofi drwy sesiynau croesholi.

Fodd bynnag, y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yw'r weithdrefn ddiodyn bellach. Cyflwynwyd y newid hwn gan *Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017*, gyda'r nod o gyflymu penderfyniadau a lleihau costau diangen.

Gall yr Arolygydd barhau i alw gwrandawiadau i ymchwilio i bwnc penodol pe bai'n ystyried bod hynny yn angenrheidiol. Mae trafodion y gwrandawriad neu'r ymchwiliad yn agored i'r cyhoedd. Caiff aelodau'r cyhoedd, yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd, gymryd rhan.

Mae'r tair gweithdrefn - sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad - yr un peth â'r gweithdrefnau a ddefnyddir i benderfynu ar apelau cynllunio (gweler ein papur briffio ar wahân ar apelau cynllunio am fwy o fanylion).

Wedyn, mae'r Arolygydd yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r weithdrefn ysgrifenedig, y gwrandawriad neu'r ymchwiliad. Mae'r Gweinidog yn ystyried y rhain, cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais.

Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Gweinidog. Fodd bynnag, caiff unigolyn wneud cais am adolygiad barnwrol o agweddau cyfreithiol neu weithdrefnol ar y penderfyniad yn unig.

4. Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell o wybodaeth sy'n cynnwys:

- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018);**
- Canllaw esboniadol i'r cyhoedd: **Ceisiadau cynllunio sy'n cael eu galw i mewn: canllaw;**
- Canllawiau ar apeliadau cynllunio: **Galw i mewn;**
- Canllawiau ar apeliadau cynllunio: **Canllaw Gweithdrefnol - Cymru;**
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'r categorïau o geisiadau cynllunio y mae'n rhaid eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru: **WGC 07/2012: Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012** (PDF 224KB);
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru sy'n esbonio gweithdrefnau apeliadau a gweithdrefnau galw i mewn: **NAFWC 07/2003 Gweithdrefnau ar gyfer apeliadau cynllunio (ac apeliadau tebyg) a galw ceisiadau i mewn.**

Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cyngori, gan gynnwys gwasanaeth llinell gymorth.

Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill a gynhyrchir gan Ymchwil y Senedd ar gael ar **wefan Ymchwil y Senedd**, ac ar ein blog: **Pigion/cynllunio**